**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Vernon Everitt
Cadeirydd, Trafnidiaeth Cymru
Pontypridd

25 Mawrth 2026

Annwyl Vernon

**Dyraniad Cyllid Pellach Llywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru 2025/26**

Yn y llythyr cyllido a gyflwynwyd i Trafnidiaeth Cymru ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, cytunais ar gyfanswm setliad cyllideb i Trafnidiaeth Cymru o £391.959 miliwn o refeniw a £281.645 miliwn o gyfalaf ar gyfer 2025/26. Cydnabuwyd ar y pryd bod y ffigurau'n cynrychioli llawer o bwysau cyllido yn erbyn y rhagolwg ariannol yn eich Cynllun Busnes blynyddol ac fe wnaethom ymrwymo i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru i fynd i'r afael â hwy a'u lliniaru.

Mae'r cyllid ychwanegol a amlinellir isod bellach wedi'i gytuno ac rwy'n disgwyl i chi a'ch bwrdd barhau i gymryd pob cyfle i leihau costau a sicrhau cymaint o refeniw â phosib, yn unol â'r llythyr cylch gwaith dyddiedig 21 Gorffennaf 2023.

Cytunwyd ar newidiadau mewn cyllid refeniw sy'n dod i gyfanswm o gynnydd cyffredinol o £33.580 miliwn, gan gynnwys £20.743 miliwn o gyllid gan yr Adran Drafnidiaeth, mewn perthynas â'r canlynol:

**Dyraniad BEL Refeniw (£m)**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | | **Cyfanswm y Gyllideb** | **Dyraniad Blaenorol i TrC** | **Dyraniad Ychwanegol i TrC** | **Cyfanswm y Dyraniad i TrC** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | 1895 | 381.950 | 381.150 | 32.906 | 414.056 |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 1880 | 140.500 | 9.300 | 0.335 | 9.635 |
| Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | 2030 | 7.200 | | 0.339 | 0.339 |
| Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1883 | 4.100 | 1.509 | | 1.509 |
| | | | **391.959** | **33.580** | **425.539** |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cytunwyd ar newidiadau mewn cyllid cyfalaf sy'n dod i gyfanswm o  gynnydd cyffredinol o £101.253 miliwn, gan gynnwys £72.153 miliwn ar gyfer estyniadau les ar gerbydau rheilffyrdd, mewn perthynas â'r canlynol:

**Dyraniad BEL Cyfalaf (£m)**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | | **Cyfanswm y Gyllideb** | **Dyraniad Blaenorol i TrC** | **Dyraniad Ychwanegol i TrC** | **Cyfanswm y Dyraniad i TrC** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | 1895 | 181.597 | 181.097 | 101.253 | 282.350 |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 1880 | 31.000 | 31.000 | | 31.000 |
| Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol | 1882 | 120.000 | 24.400 | | 24.400 |
| Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol - Grantiau | 1882 | | 39.500 | | 39.500 |
| Datblygu Polisi Cenedlaethol | 2030 | 4.800 | 4.137 | | 4.137 |
| Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 1885 | 186.400 | 1.511 | | 1.511 |
| | | | **281.645** | **101.253** | **382.898** |

Mae'r cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer rheilffyrdd yn cynnwys £12.0 miliwn o'r gwariant a ragwelir ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol nesaf a fydd yn arwain at ostyngiad uniongyrchol mewn costau yn 2026-27.

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys cyllid a ddarperir drwy gynigion grant unigol. Mae'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwn a nodir yn y llythyr cyllido cychwynnol yn parhau ac yn berthnasol i unrhyw gyllid ychwanegol. Rhaid ichi sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n gydnaws â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 a'r cytundebau cymwys a gynhwysir yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE ac unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU a Phrotocol Gogledd Iwerddon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chi i fonitro gwariant a chyllid wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn galluogi Gweinidogion i ystyried unrhyw amrywiadau sy'n dod i'r amlwg mewn trafodaethau rheoli cyllideb rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Yn gywir



**Ken Skates AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru